# Ein Gweledigaeth am Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Size of Wales
Maint Cymru

| Gofynion Manifesto Maint Cymru | Ceidwadwyr Cymreig | Plaid Werdd Cymru | Llafur Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Plaid Cymru | Reform UK |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1. Caffael Dim Datgoedwigo a Chadwyni Cyflenwi Moesegol** | | | | | | |
| **1.1. Diwygio'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael i gynnwys safonau datgoedwigo a chadwyni cyflenwi dim ecsbloetio gorfodol yn y Canllawiau Statudol.** | | | | | Sicrhau bod cynigion contract yn cael eu sgorio'n effeithiol nid yn unig ar y llinell waelod, ond ar yr effaith ar y gymuned, ar werth cymdeithasol ac ar sut maen nhw'n meithrin gallu busnesau yng Nghymru ac yn datblygu cadwyni cyflenwi lleol. | |
| **1.2. Gorfodi cyrff cyhoeddus i gaffael bwyd a nwyddau dim datgoedwigo, a rhai sydd yn cael eu cyrchu'n foesegol ac yn gyfrifol.** | Diwygio rheolau caffael cyhoeddus i gefnogi cynhyrchwyr Cymreig. | Bydd caffael cyhoeddus yn chwarae rôl allweddol wrth greu marchnadoedd sefydlog. Dylai ysgolion, ysbytai a sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru roi blaenoriaeth i fwyd a gynhyrchir yn lleol lle bo hynny'n bosibl. Bydd hybiau bwyd lleol a seilwaith prosesu rhanbarthol yn cryfhau cadwyni cyflenwi ac yn cadw gwerth o fewn cymunedau.<br><br>Gall caffael cyhoeddus drawsnewid systemau bwyd yng Nghymru. Byddwn yn blaenoriaethu bwyd a gynhyrchir yng Nghymru i safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid uchel mewn ysgolion, ysbytai a sefydliadau cyhoeddus.<br><br>Bydd canllawiau clir yn sicrhau bod contractau sector cyhoeddus yn blaenoriaethu cyflenwyr lleol lle bo hynny'n bosibl. Bydd penderfyniadau caffael yn mesur gwerth cymdeithasol, budd cymunedol, gwaith teg a lleihad mewn carbon, nid pris yn unig. | Annog mwy o bobl i dyfu, siopa a bwyta'n lleol.<br><br>Ein nod fydd cynyddu gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru ar fwyd o Gymru o leiaf 50% erbyn 2030. | | Byddwn yn defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi busnesau yng Nghymru yn well, gyda'r nod o gynyddu lefel y gwariant ar gaffael nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr yng Nghymru – o 55% (y lefel ar hyn o bryd) i o leiaf 70% o holl wariant caffael cyhoeddus Cymru.<br><br>Defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi ein sector bwyd a diod yn well, gan gynyddu cyfran y bwyd sy'n cael ei gaffael yn gyhoeddus ac sy'n dod o Gymru o 23% i 50% o leiaf.<br><br>Gweithio gyda phartneriaid mewn llywodraeth leol i hyfforddi cenhedlaeth newydd o swyddogion caffael ar yr arferion gorau ym maes caffael arloesol. | CAFFAEL LLEOL – PRYNU'N LLEOL: Dylai ffermwyr Cymru fod yn gyflenwyr bwyd dewisol i'r sector cyhoeddus. Mae Reform yn cefnogi ffafrio cyflenwyr lleol lle mae'n cynrychioli gwerth am arian, ond ni fydd yn cefnogi mandadau, cwotâu, nodau ansawdd na chynlluniau biwrocrataidd cysylltiedig. |
| **1.3. Gweithredu arferion economi gylchol (lleihau, ailddefnyddio, ailgylchu) i leihau allyriadau sy'n gysylltiedig â'n treuliant.** | | | | | | |

**Hyrwyddir gan Maint Cymru:** Y Deml Heddwch, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd CF10 3AP.
**Ebost:** info@sizeofwales.org.uk

**Ymwadiad:** Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei ddarparu at ddibenion gwybodaeth yn unig, er mwyn llywio trafodaeth ar bolisi amgylcheddol. Nid yw'n ceisio dylanwadu ar ymddygiad pleidleisio nac ychwaith, cefnogi neu wrthwynebu unrhyw blaid wleidyddol nac ymgeisydd. Mae'r elusen yn annibynnol ac yn amhleidiol, ac mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ei hymrwymiad i ymgysylltu ar sail tystiolaeth er budd y cyhoedd.

Yn cyd-fynd yn gryf — Yn cyd-fynd yn rhannol — Nid yw'n cyd-fynd

Size of Wales Maint Cymru

| Gofynion Manifesto Maint Cymru | Ceidwadwyr Cymreig | Plaid Werdd Cymru | Llafur Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Plaid Cymru | Reform UK |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2. Develop a National Food Resilience Plan with Global Impact** | | | | | | |
| **2.1. Creu strategaeth fwyd drawsadrannol sy'n cefnogi cadwyni cyflenwi "o'r fferm i'r fforc" lleol a chynaliadwy, a mewnforion a gyrchir yn foesegol.** | | Drwy Fil Bwyd Da i Gymru a Fframwaith Defnydd Tir cenedlaethol, byddwn yn cysoni gweithgarwch cynhyrchu bwyd, nodau o ran yr hinsawdd, iechyd y cyhoedd ac ymdrechion i adfer bioamrywiaeth.<br><br>Byddwn yn cyflwyno Bil Bwyd Da i Gymru a fydd yn darparu fframwaith statudol hirdymor i drawsnewid y system fwyd.<br><br>Gyda'i gilydd, bydd y polisïau hyn yn darparu bwyd fforddiadwy, iach i bawb yng Nghymru, bywoliaeth deg i ffermwyr a thyfwyr, ecosystemau sydd wedi'u hadfer a chymunedau gwledig llewyrchus. | | Cyflwyno Strategaeth Fwyd Genedlaethol i Gymru i ddiogelu cyflenwadau bwyd, mynd i'r afael â thlodi bwyd a gwella iechyd a maeth pob teulu. | Datblygu Strategaeth Fwyd genedlaethol newydd i Gymru i gryfhau cadwyni cyflenwi bwyd, gwella diogelwch bwyd, a defnyddio caffael cyhoeddus yn well i gefnogi cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru. | GWEITHIO GYDA FFERMWYR AC UNDEBAU FFERMIO I DDATBLYGU STRATEGAETH FWYD DENG MLYNEDD: Rhaid i Gymru beidio â dod yn ddibynnol yn beryglus ar fwyd wedi'i fewnforio. Mae cynhyrchu bwyd domestig yn fater 22 REFORM Reform Cymru Maniffesto'r Senedd REFORM Reform Cymru Maniffesto'r Senedd 23 o wydnwch cenedlaethol yn ogystal â chryfder economaidd. Bydd Reform yn gweithio'n uniongyrchol gyda ffermwyr ac undebau ffermio i ddatblygu strategaeth fwyd Cymreig deng mlynedd wedi'i thanategu gan ddeddfwriaeth ac yn canolbwyntio ar ddiogelwch bwyd, cynhyrchiant, cadwyni cyflenwi o'r fferm i'r fforc, twf allforion, a chyflenwad domestig cynaliadwy. Bydd hyn yn cynnwys gwaelodlinau cynhyrchu ar gyfer cig eidion, cig oen a llaeth. Caiff ffermwyr eu trin fel partneriaid yn y gwaith cyflawni. |
| **2.2. Ehangu mynediad i dir cymunedol er mwyn tyfu bwyd (e.e., gerddi, rhandiroedd, perllan).** | | Byddwn yn cyflwyno Deddf Diwygio Tir Cymru a Chronfa Tir Cymunedol Cymru i roi mwy o ddiogelwch i denantiaid ac ehangu perchnogaeth tir gymunedol. | | | | |

Yn cyd-fynd yn gryf — Yn cyd-fynd yn rhannol — Nid yw'n cyd-fynd

# Ein Gweledigaeth am Gymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

| Gofynion Manifesto Maint Cymru | Ceidwadwyr Cymreig | Plaid Werdd Cymru | Llafur Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Plaid Cymru | Reform UK |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2. Develop a National Food Resilience Plan with Global Impact** | | | | | | |
| **2.3. Cefnogi systemau bwyd lleol, gan gynnwys garddwaith ar gyfer cynhyrchu bylbiau a phroteinau planhigion mwy amrywiol, ac annog y cyhoedd yng Nghymru i ddewis bwydydd sydd yn cynnwys cynhwysion dim datgoedwigo ac sy'n gyfeillgar i natur.** | | Byddwn yn cyflwyno Strategaeth Garddwriaeth Genedlaethol i gynyddu faint o ffrwythau, llysiau a phylsau sy'n cael eu cynhyrchu'n ddomestig. Bydd taliadau cymorth sy'n ymwneud yn benodol â garddwriaeth yn adlewyrchu'r dwysedd llafur a'r costau pontio sy'n gysylltiedig â thyfu cynnyrch ffres. Bydd grantiau cyfalaf yn cefnogi seilwaith fel twnelau polythen, systemau dyfrhau, cyfleusterau storio oer a phrosesu lleol.<br><br>Byddwn hefyd yn ehangu gweithgarwch cynhyrchu pylsau a phroteinau o blanhigion gan helpu i leihau'r ddibyniaeth ar borthiant sy'n cael ei fewnforio a chefnogi deietau iachach. | | | Targedu a chymell cynnydd graddol mewn cynhyrchiant garddwriaethol, gyda'r uchelgais y bydd 25% o'r llysiau sy'n cael eu gweini yn Ysgolion Cymru yn dod o Gymru erbyn 2030. | |
| **2.4. Cynorthwyo busnesau bwyd yng Nghymru i fabwysiadu polisïau ac arferion dim datgoedwigo drwy ddefnyddio adnoddau ymarferol.** | | | | Gwneud yn siŵr bod gan ddefnyddwyr hyder yn y bwyd y maen nhw'n ei fwyta drwy roi labeli gonest a chlir ar fwyd gan gynnwys camau amddiffyn cryf i gynnyrch Cymreig. | Datblygu brand newydd, swyddogol 'Gwnaed yng Nghymru' sy'n rhoi gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am darddle cynnyrch ac arbedion cost carbon drwy brynu'n lleol. | |

Yn cyd-fynd yn gryf — Yn cyd-fynd yn rhannol — Nid yw'n cyd-fynd

| Gofynion Manifffesto Maint Cymru | Ceidwadwyr Cymreig | Plaid Werdd Cymru | Llafur Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Plaid Cymru | Reform UK |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3. Diwygio Ffermio Cynaliadwy** | | | | | | |
| **3.1. Alinio'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy Newydd (SFS) gyda nodau dim datgoedwigo: cefnogi ffermwyr i stopio defnyddio cyflenwadau soia ac olew palmwydd sy'n sbarduno datgoedwigo a cholli cynefin dramor, a hybu nwyddau amgen lleol fel codlysiau sydd wedi'u tyfu yn y DU, a systemau sy'n cael eu pesgi ar borfa.** | | Ar hyn o bryd, mae'r DU yn mewnforio symiau mawr o fwyd anifeiliaid sy'n gysylltiedig â datgoedwigo tramor. 31 Byddwn yn lleihau'r ddibyniaeth ar y mewnforion hyn drwy gefnogi cnydau protein domestig a systemau tir pori amrywiol.<br><br>Byddwn yn ehangu Cyswllt Ffermio fel y gall pob ffermwr gael cyngor integredig ar gynhyrchiant, cynaliadwyedd, addasu i'r hinsawdd ac adfer bioamrywiaeth. | Parhau i ddatblygu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy i roi hwb i gynhyrchu bwyd cynaliadwy a chynyddu cymorth i ffermwyr i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. | | Byddwn yn parhau i gydweithio'n gryf â'r gymuned ffermio wrth i ni roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith, a pharhau i'w ddatblygu a'i fireinio – gan helpu busnesau fferm ffyniannus a chynaliadwy i gynhyrchu bwyd, yn ogystal â chyflawni canlyniadau amgylcheddol allweddol yn raddol. | |
| **3.2. Hyrwyddo arferion amaethyddiaeth agroecolegol fel coetiroedd amaethgoedwigaeth, ffermio adfywiol ac organig, a systemau sy'n gyfeillgar i'r hinsawdd sy'n gweithredu mewn harmoni â'r tir ac sy'n lleihau'r angen am borthiant anifeiliaid wedi'i fewnforio.** | | Rhaid i dir gyflwyno llawer o fuddiannau i gymdeithas. Bydd Fframwaith Defnydd Tir cenedlaethol yn llywio penderfyniadau ar draws llywodraeth i gydbwyso gweithgarwch cynhyrchu bwyd, bioamrywiaeth, y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd, amddiffyn dŵr a chyfoeth cymunedol.<br><br>Bydd y fframwaith yn amddiffyn y tir amaethyddol gorau i gynhyrchu bwyd ac yn sicrhau bod gweithgarwch creu coetiroedd, ynni adnewyddadwy ac adfer natur yn cael ei gynllunio'n strategol. Bydd ffermwyr yn cael mwy o eglurder i gynllunio buddsoddiadau hirdymor mewn iechyd pridd, systemau rheoli dŵr, amaethgoedwigaeth ac ynni adnewyddadwy ar ffermydd.<br><br>Bydd rhaglenni hyfforddiant a mentora yn cefnogi newydd-ddyfodiaid i ffermio, a bydd buddsoddiad yn iechyd y pridd ac arferion tyfu sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd yn cryfhau cynhyrchiant hirdymor.<br><br>Bydd Cynllun Gweithredu Organig yn anelu at sicrhau bod 10% o dir ffermio yn organig erbyn 2030, gan gefnogi ffermwyr sy'n awyddus i bontio a helpu i ateb y galw cynyddol ymhlith defnyddwyr. | | Buddsoddi £50 miliwn yn ychwanegol bob blwyddyn i gefnogi ffermio proffidiol, cynaliadwy ac sydd o les i natur yng Nghymru.<br><br>Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi ffermwyr Cymru ac yn gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cael bwyd fforddiadwy, iach a maethlon, wedi'i gynhyrchu yn unol â safonau lles ac amgylcheddol uchel. | | |

Yn cyd-fynd yn gryf · Yn cyd-fynd yn rhannol · Nid yw'n cyd-fynd

| Gofynion Manifffesto Maint Cymru | Ceidwadwyr Cymreig | Plaid Werdd Cymru | Llafur Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Plaid Cymru | Reform UK |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3. Diwygio Ffermio Cynaliadwy** | | | | | | |
| **3.3. Goruchwyliaeth well ar weithgareddau mewn dalgylchoedd afonydd, trwy gynnwys ffermio da byw mewnbwn uchel ac allbwn uchel yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (EPR), yn ogystal â gostwng y trothwy lle mae unedau dofednod yn disgyn o fewn y rheoliadau hyn, a chyflwyno gofynion effeithiol, gan gynnwys yn y system gynllunio i rwystro effaith gronnol sawl uned da byw. Dylai cefnogaeth hefyd gael ei chynnig i drawsnewid i fodelau cynhyrchu llai effeithiol. Yn y pen draw, bydd hyn yn lleihau'r defnydd o borthiant anifeiliaid soia a ddefnyddir mewn unedau dofednod dwys (IPUs), ac yn lleihau ôl troed datgoedwigo byd-eang Cymru.** | Glanhau ein hafonydd a gwella ansawdd dŵr ymdrochi, a defnyddio technoleg fodern i wella monitro. | I amddiffyn yn effeithiol, rhaid cael sefydliadau cryf. Byddwn yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael adnoddau priodol i arwain y gwaith o adfer bioamrywiaeth, rheoli tir yn gynaliadwy a gorfodi mesurau llygredd. Byddwn yn cryfhau Datganiadau Ardal i lywio adferiad natur yn lleol ac yn sefydlu Swyddfa Llywodraethu Amgylcheddol Cymru yn ddi-oed i fod yn oruchwylydd amgylcheddol annibynnol.<br><br>Byddwn yn gostwng llygredd maethynnau o leiaf 50%, yn sicrhau bod 100% o gyrff dŵr yn cael eu monitro'n weithredol erbyn 2027, ac yn cryfhau mesurau gorfodi yn erbyn troseddau llygredd. Byddwn yn cyflwyno systemau goruchwylio gwell mewn dalgylchoedd afonydd gan gynnwys drwy leihau'r trothwy ar gyfer unedau dofednod sy'n dod o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.<br><br>Bydd rhaglenni cyngor a chymorth yn helpu rheolwyr tir i atal llygredd cyn iddo ddigwydd.<br><br>Caiff niwed amgylcheddol ei fonitro ochr yn ochr â digwyddiadau llygredd fel na all cwmnïau anwybyddu difrod hirdymor. | Cynnal Uwchgynhadledd Buddsoddi Natur benodedig i ysgogi cyllid y sector preifat ar gyfer natur yng Nghymru.<br><br>Glanhau ein hafonydd a'n moroedd trwy gyflwyno Bil Dŵr Glân i Gymru, creu rheoleiddiwr dŵr newydd ac ariannu cronfa ddynodedig i syrthio'n drwm ar bobl sy'n llygru ein hafonydd. | Rhoi'r arian a'r adnoddau sydd eu hangen ar Gyfoeth Naturiol Cymru i fonitro llygredd a mynd i'r afael â hyn yn effeithiol.<br><br>Cyflwyno rhaglen 'coridor glas' ar gyfer afonydd, nentydd a llynnoedd er mwyn gwneud yn siŵr bod dŵr glân ac iach, a gosod safonau 'baner las' newydd. | Byddwn yn gosod targedau newydd, gorfodol i leihau llygredd yn ein hafonydd a'n moroedd, yn seiliedig ar yr egwyddor 'y llygrwr sy'n talu', ac yn erlyn y rhai sy'n llygru dro ar ôl tro, ac yn ddifrifol.<br><br>Byddwn yn casglu mwy o ddata a gwell data ar ddigwyddiadau llygredd ac yn gweithio i sicrhau bod pob corff dŵr yng Nghymru yn ennill statws 'da' o leiaf – gan gynnwys drwy symud o'r dull 'ffermio yn ôl y calendr' hen ffasiwn o fynd i'r afael â dŵr ffo o amaethyddiaeth, i system sy'n cael ei harwain gan wyddoniaeth, sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n briodol i risg, ac sy'n atal llygredd gan gefnogi ffermio cynaliadwy ar yr un pryd.<br><br>Rhoi dull newydd ar waith sy'n seiliedig ar wyddoniaeth ac ar ganlyniadau, ac sy'n gymesur â'r risg, ar gyfer rheoli perygl nitradau ar draws dalgylchoedd – gan symud y tu hwnt i'r dull 'ffermio yn ôl y calendr' hen ffasiwn a helpu ffermwyr i fabwysiadu technolegau ac arferion newydd i leihau llygredd dŵr amaethyddol. | DEDDF AFONYDD CYMRU: Byddwn yn cynnal ymgynghoriad ledled Cymru ac yn datblygu strategaeth i ddiogelu ein hafonydd ar sail arfer gorau byd-eang. Bydd deddfwriaeth yn mynd i'r afael ag atebolrwydd ar gyfer gollwng carthffosiaeth, yn cefnogi rheoli maetholion ar draws dalgylchoedd, ac yn gwobrwyo gwelliannau mesuradwy mewn ansawdd dŵr. |

Yn cyd-fynd yn gryf | Yn cyd-fynd yn rhannol | Nid yw'n cyd-fynd

| Gofynion Manifffesto Maint Cymru | Ceidwadwyr Cymreig | Plaid Werdd Cymru | Llafur Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Plaid Cymru | Reform UK |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **4. Trawsnewid Bwydydd Ysgol a Lleihau Bwydydd wedi'u Prosesu'n Helaeth (UPFs)** | | | | | | |
| **4.1. Diweddaru Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009 i gynnwys darpariaethau ar gyfer cynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol, a chyfyngiadau ar Fwydydd Wedi'u Prosesu'n Helaeth.** | | | | | | |
| **4.2. Gosod targedau i leihau Bwydydd Wedi'u Prosesu'n Helaeth mewn deiet plant, a chynyddu cynhwysion, ffres, lleol a thymhorol sy'n seiliedig ar blanhigion.** | | Bydd yn ymgorffori'r hawl i fwyd iach yn y gyfraith, yn rheoleiddio amgylcheddau bwyd niweidiol ac yn defnyddio caffael cyhoeddus i gefnogi ffermwyr yng Nghymru a darparu bwyd ffres a maethlon yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Byddwn yn trin gordewdra fel her iechyd y cyhoedd, nid methiant personol, drwy sicrhau bod dewisiadau iachach yn haws ac yn fwy fforddiadwy. | Diogelu iechyd pobl ifanc trwy gyfyngu ar werthu diodydd egni i'r rhai dan 16 oed ac archwilio camau gweithredu i greu amgylcheddau bwyd iachach, gan gynnwys defnyddio rheolau cynllunio lleol i gyfyngu ar siopau cludfwyd poeth o gwmpas ysgolion a mannau chwarae.<br><br>Ymestyn prydau ysgol am ddim mewn ysgolion uwchradd i o leiaf bob aelwyd sy'n cael Credyd Cynhwysol, a sicrhau bod prydau ysgol yn iachach ac yn fwy maethlon. | | Fel rhan o Strategaeth Fwyd genedlaethol newydd ac ehangach i Gymru, byddwn yn sicrhau bod prydau ysgol yn iachach ac yn cynnwys mwy o gynnyrch o Gymru. | |
| **4.3. Cael myfyrwyr i gymryd rhan mewn dylunio bwydlenni ysgol, coginio, ac mewn tyfu bwyd i gryfhau llythrennedd bwyd, a chynnwys y gymuned ysgol ehangach hefyd fel athrawon, rhieni a gofalwyr.** | | | | | Cyflwyno agwedd ysgol gyfan at fwyd (gyda llythrennedd bwyd a choginio yn rhan greiddiol o'r cwricwlwm), system archwilio ar gyfer cinio ysgol, a hybu rhagoriaeth o ran arlwyo mewn ysgolion. | |

Yn cyd-fynd yn gryf | Yn cyd-fynd yn rhannol | Nid yw'n cyd-fynd

Size of Wales Maint Cymru

| Gofynion Manifesto Maint Cymru | Ceidwadwyr Cymreig | Plaid Werdd Cymru | Llafur Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Plaid Cymru | Reform UK |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **5. Ymwreiddio Dinasyddiaeth Fyd-eang, yr Hinsawdd ac Addysg Bwyd** | | | | | | |
| **5.1. Cyllido rhaglenni addysg hinsawdd, sy'n galluogi pobl ifanc i ddysgu mwy am bwysigrwydd coedwigoedd trofannol gan arbenigwyr proffesiynol a sut i'w diogelu.** | | Dylai'r cwricwlwm baratoi pobl ifanc ar gyfer y byd y byddant yn ei etifeddu. Byddwn yn sicrhau ei fod yn cynnwys eco-lythrennedd, addysg iechyd a llesiant, llythrennedd bwyd ac addysg perthnasooedd a fydd yn cynnwys perthnasoedd LGBTQIA, ochr yn ochr ag addysg ddinesig sy'n paratoi myfyrwyr i gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. | | | | |
| **5.2. Ymwreiddio addysg bwyd ymarferol ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys dysgu'n rheolaidd am gynhyrchu bwyd o'r fferm i'r fforc, paratoi bwyd a choginio, ymweliadau â ffermydd, tyfu prosiectau a chael yr amser i rannu bwyd maethlon.** | Hyrwyddo bwtya'n iach a ffyrdd iach o fyw drwy'r cwricwlwm ysgol.<br><br>Sicrhau bod disgyblion yn datblygu sgiliau bywyd hanfodol megis cyllidebu, sut i reoli cartref a pharatoi pryd iach drwy gyflwyno gwersi Gwyddor Cartref gorfodol. | | | | Hyrwyddo a chefnogi hybiau a mentrau bwyd cymunedol sy'n gwella llythrennedd bwyd, a sicrhau bod bwyd iach, wedi'i gynhyrchu yn lleol ar gael yn ehangach a'i fod yn fwy fforddiadwy. | |
| **5.3. Cefnogi darparu hyfforddiant i athrawon ac adnoddau dysgu ar gyfrifoldeb byd-eang, hawliau Pobl Frodorol, ac ar fyw'n gynaliadwy.** | | | | | | |

Yn cyd-fynd yn gryf | Yn cyd-fynd yn rhannol | Nid yw'n cyd-fynd

<table>
<tr><th>Gofynion Maniffesto Maint Cymru</th><th>Ceidwadwyr Cymreig</th><th>Plaid Werdd Cymru</th><th>Llafur Cymru</th><th>Democratiaid Rhyddfrydol Cymru</th><th>Plaid Cymru</th><th>Reform UK</th></tr>
<tr><td colspan="7">6. Dangos Undod Byd-eang a Chefnogi Pobloedd Frodorol</td></tr>
<tr><td>6.1. Parhau â gwaith pwysig rhaglen Cymru ac Affrica, yn benodol drwy hyrwyddo a chefnogi rhaglenni tyfu coed fel Rhaglen Plannu Coed Mbale yn Uganda.</td><td rowspan="2">Atal gwario ar brosiectau datblygu rhyngwladol, gan gynnwys plannu coed yn Uganda a chanŵau pŵer solar ym Mheriw.<br><br>Rhoi stop ar wario ar faterion annatganoledig, fel cyfiawnder, materion rhyngwladol, cymorth tramor a mewnfudo a dileu Incwm Sylfaenol Cynhwysol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru.</td><td>RHYNGWLADOLIAETH A CHYDWEITHREDU: Rhaid i Gymru chwarae rôl weithredol yn y byd ehangach. Mae'r Blaid Werdd yn credu mewn cydweithredu rhyngwladol, gweithio dros heddwch ac undod byd-eang.</td><td rowspan="3">Sicrhau bod Cymru'n fentrus ac yn weithgar ar y llwyfan byd-eang, gan ddangos y gorau o'n cenedl a'n gwerthoedd i'r byd. Byddwn yn parhau i gefnogi pobl mewn argyfwng ledled y byd, gan gynnwys o ganlyniad i wrthdaro a thrychinebau naturiol. Byddwn yn cefnogi Academi Heddwch.</td><td></td><td>Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn falch o fod ag agwedd ryngwladol, ac yn cymryd ei chyfrifoldebau byd-eang o ddifrif. Byddwn yn meithrin cysylltiadau rhyngwladol yn seiliedig ar ein gwerthoedd – gan hybu democratiaeth a chyfiawnder cymdeithasol, cydweithio i fynd i'r afael â newid hinsawdd, diogelu hawliau cenhedloedd bach ac ieithoedd lleiafrifol, a hybu heddwch a chydweithrediad drwy sefydliadau rhyngwladol. Bydd llywodraeth Plaid Cymru yn sefyll dros heddwch, cyfiawnder a pharch at gyfraith ryngwladol – yn union fel y gwnaeth Plaid Cymru safiad cadarn ac egwyddorol ar Gaza.</td><td rowspan="2">DILEU POB GWARIANT AR GYMORTH RHYNGWLADOL MEWN CYLLIDEBAU DATGANOLEDIG: Mae gweinidogion Cymru yn arllwys arian i brosiectau tramor fel plannu coed yn Uganda, tra bod amseroedd aros A&E yn cyrraedd lefelau record. Nid yw'n gwneud synnwyr gwario arian trethdalwyr ar gymorth tramor tra bod seilwaith yn dadfeilio gartref. Bydd Reform yn ailgyfeirio pob punt o gymorth tramor at flaenoriaethau Cymru. Dyletswydd gyntaf y Llywodraeth yw i'r bobl sy'n byw yma, nid i brosiectau gwagedd dramor.</td></tr>
<tr><td>6.2. Cefnogi Pobl Frodorol trwy gyllid a thrwy gydnabod eu hawliau i ddiogelu coedwigoedd trofannol a bioamrywiaeth.</td><td></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>6.3. Integreiddio allyriadau datgoedwigo wedi'u mewnforio i ôl troed carbon a thargedau sero net Cymru.</td><td></td><td>RHOI TERFYN AR NIWED AMGYLCHEDDOL TRAMOR: Ar hyn o bryd, mae'r DU yn mewnforio symiau mawr o fwyd anifeiliaid sy'n gysylltiedig â datgoedwigo tramor Byddwn yn lleihau'r ddibyniaeth ar y mewnforion hyn drwy gefnogi cnydau protein domestig a systemau tir pori amrywiol. Byddwn hefyd yn pwyso ar Lywodraeth y DU i gyflwyno deddfwriaeth cadwyni cyflenwi sy'n rhydd rhag datgoedwigo, gan sicrhau nad yw mewnforion bwyd yn cyfrannu at ddinistr amgylcheddol dramor.</td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table>

Yn cyd-fynd yn gryf    Yn cyd-fynd yn rhannol    Nid yw'n cyd-fynd

| Gofynion Manifesto Maint Cymru | Ceidwadwyr Cymreig | Plaid Werdd Cymru | Llafur Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Plaid Cymru | Reform UK |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Arall** | | | | | | |
| | | Ni ddylai rheolau masnach ganiatáu i fewnforion a gaiff eu cynhyrchu i safonau amgylcheddol neu les is gael eu gwerthu am brisiau is na ffermwyr Cymru. | Sicrhau bod Cymru'n fentrus ac yn weithgar ar y llwyfan byd-eang, gan ddangos y gorau o'n cenedl a'n gwerthoedd i'r byd. Byddwn yn parhau i gefnogi pobl mewn argyfwng ledled y byd, gan gynnwys o ganlyniad i wrthdaro a thrychinebau naturiol. Byddwn yn cefnogi Academi Heddwch. | Brwydro i wneud yn siŵr bod pob cytundeb masnach yn y dyfodol yn bodloni safonau uchel o ran iechyd, yr amgylchedd a lles anifeiliaid, gan wneud yn siŵr nad yw ffermwyr a gweithgynhyrchwyr bwyd Cymru o dan anfantais annheg. | Mynd i'r afael â newid hinsawdd fydd un o brif flaenoriaethau llywodraeth Plaid Cymru.<br><br>Gwreiddio datgarboneiddio, cynaliadwyedd a diogelu'r amgylchedd fel cyfrifoldebau trawsbynciol ar lefel cabinet ar draws pob maes portffolio.<br><br>Gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru – sy'n cyfuno cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol sydd, ers 2025, yn rheoli £25bn mewn asedau – i ddatblygu dull newydd o fuddsoddi'n foesegol ac yn lleol, gan gynnwys mewn tai cymdeithasol a busnesau yng Nghymru. | |


## Hyrwyddir gan Maint Cymru

Y Deml Heddwch, Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd CF10 3AP.

**Ebost:** info@sizeofwales.org.uk


**Ymwadiad:** Mae'r dadansoddiad hwn yn cael ei ddarparu at ddibenion gwybodaeth yn unig, er mwyn llywio trafodaeth ar bolisi amgylcheddol. Nid yw'n ceisio dylanwadu ar ymddygiad pleidleisio nac ychwaith, cefnogi neu wrthwynebu unrhyw blaid wleidyddol nac ymgeisydd. Mae'r elusen yn annibynnol ac yn amhleidiol, ac mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu ei hymrwymiad i ymgysylltu ar sail tystiolaeth er budd y cyhoedd.